## Canllaw ar gychwyn eich cais i ddod yn yrrwr trwyddedig

***Mae angen dogfennau i gyflwyno eich cais cychwynnol (ar ôl ei gyflwyno, mae gennych 4 mis i gwblhau'r broses hon)***

***Os ydych chi wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddaru'r GDG, ewch yn syth i Gam 3 a dod â'r holl ddogfennau i'r swyddfa.***

**Cam 1.** E-bost tacsidbs@caerdydd.gov.uk gyda'ch Enw Cyntaf, Cyfenw a Dyddiad Geni

**Cam 2.** Anfonwn neges e-bost atoch gydag enw defnyddiwr a chyfrinair i chi lenwi ffurflen y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein.

**Cam 3.** Yna byddwch yn derbyn e-bost yn gofyn i chi alw i mewn i'r Swyddfa Cerbydau Cyhoeddus fel y gallwn wirio'r cais. Sicrhewch eich bod yn dod â'r holl ddogfennau adnabod perthnasol canlynol a'r ffi o £58.50 gyda chi. Mae angen y dogfennau GWREIDDIOL arnom.

- Tystiolaeth o'ch hawl i Aros a Gweithio yn y DU neu God Rhannu Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
- 2 ffotograff diweddar maint llun pasbort union yr un fath
- Trwydded Yrru
- Pasbort dilys neu ddull adnabod arall (gweler drosodd)
- 2 brawf o gyfeiriad (bil cyfleustodau, cyfriflen banc sydd wedi *dod drwy'r post* yn ystod y 3 mis diwethaf – rhestr drosodd) NI ELLIR EU HARGRAFFU O'R RHYNGRWYD
- Tystiolaeth o'ch Rhif Yswiriant Gwladol

**Cam 4.** Ar ôl i chi dderbyn eich Tystysgrif GDG, mae angen i chi ei chofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru yn www.gov.uk/dbs-update-service. Rhaid gwneud hyn o fewn 19 diwrnod calendr o'r dyddiad y cafodd ei chyhoeddi. Ni fydd unrhyw drwydded yn cael ei chyhoeddi heb gadarnhad bod tystysgrif GDG yn gyfredol a ddim yn cynnwys unrhyw wybodaeth bellach ers y dyddiad y cafodd ei chyhoeddi.

- Tystiolaeth o fod wedi cyflawni'r cymhwyster SQA, **Tystysgrif Lefel 2 Cyflwyniad i Swydd y Gyrrwr Tacsi a Cherbyd Llogi Preifat Proffesiynol** yn llwyddiannus.

**I weld rhestr gyfredol o ganolfannau profi cymeradwy SQA, ewch i https://www.sqa.org.uk/sqa/81913.html neu cysylltwch â SQA dros y ffôn ar 0345 279 1000**

- Tystysgrif Feddygol Grŵp 2 wedi'i chwblhau gan eich Meddyg.

- Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).
  (Rhaid ei chyflwyno i ni o fewn 28 diwrnod ar ôl ei derbyn drwy'r post i'ch cyfeiriad cartref)

- Cod Gwirio Trwydded Yrru.
  Mae hwn yn awdurdodi'r DVLA i ddatgelu'r holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'ch cofnod gyrrwr o'u cofrestr gyfrifiadurol.

  Ewch i......... DVLA.gov.uk neu ffoniwch 0300 7906801
  *Cliciwch ar* Gweld neu rannu'r wybodaeth ar eich trwydded yrru
  *Cliciwch ar* Dechrau Nawr
  Rhowch rif eich trwydded yrru
  Rhowch eich rhif Yswiriant Gwladol
  Rhowch eich cod post
  *Ticiwch* "Rwy'n cytuno"
  *Cliciwch ar* Gweld Nawr
  Cornel dde uchaf – *Cliciwch ar* "Rhannu gwybodaeth eich trwydded"
  *Cliciwch ar* Cael Cod
  Ysgrifennwch yr union god a roddir (Priflythrennau/llythrennau bach)

**Mae'r priflythrennau/llythrennau bach o bwys, ac mae'r cod yn ddilys am 21 diwrnod, ond dim ond unwaith y gallwch ei gyrchu.**

- Taliad am y Prawf Gwybodaeth Ysgrifenedig £41.00

**Prawf adnabod**

Bydd angen i bob ymgeisydd sy'n cyflwyno cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat gyflwyno tystysgrif foddhaol o'u hunaniaeth a chyflwyno tystiolaeth o'r hawl i weithio yn y DU.

Rhaid i'r dogfennau hyn fod yn rhai gwreiddiol (nid yn gopïau) ac mae'n rhaid i chi gyflwyno cyfanswm o dair dogfen i brofi'ch hunaniaeth.

Rhaid i chi gyflwyno un ddogfen o Grŵp 1, a dwy ddogfen o un ai Grŵp 1, 2a neu 2b (rhaid i un ohonynt brofi eich cyfeiriad presennol).

Os nad oes modd i chi gyflwyno tair dogfen adnabod, ni fyddwn yn gallu cadarnhau pwy ydych chi. Mewn achosion o'r fath mae angen i chi gysylltu â'r adran trwyddedu a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar sut y dylech fwrw ymlaen.

**Grŵp 1 – Prif Brawf Adnabod**

- Pasbort Dilys Presennol
- Trwydded Breswyl Fiometrig (Y DU)
- Trwydded Yrru Gyfredol (Y DU, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel neu'r UE)
- Tystysgrif Geni a gyflwynwyd o fewn 12 mis o'ch genedigaeth (DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel – gan gynnwys rhai a gyflwynwyd gan awdurdodau'r DU o dramor, e.e. llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau a Lluoedd Ei Fawrhydi)
- Tystysgrif Mabwysiadu (Y DU ac Ynysoedd y Sianel)

**Grŵp 2a – Dogfennau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth/Gwladwriaeth**

- Trwydded Yrru y DU gyfredol (Hen fersiwn bapur)
- Trwydded Yrru Ffotograffig Gyfredol nad yw o'r DU (i ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i'r DU ar adeg y cais).
- Tystysgrif Geni – cyhoeddwyd ar adeg geni (Y DU ac Ynysoedd y Sianel)
- Tystysgrif Priodi/Partneriaeth Sifil (Y DU ac Ynysoedd y Sianel).
- Cerdyn Adnabod Lluoedd Ei Fawrhydi (Y DU)
- Trwydded Drylliau (Y DU ac Ynysoedd y Sianel)

**Grŵp 2b – Dogfennau hanes cymdeithasol ac ariannol**

- Cyfriflen Morgais (Y DU neu AEE)**
- Cyfriflen Banc/Cymdeithas Adeiladu (Y DU neu AEE)*
- Llythyr Cadarnhau Agor Cyfrif Banc/Cymdeithas Adeiladu (Y DU)
- Cyfriflen Cerdyn Credyd (Y DU neu AEE)*
- Cyfriflen Ariannol ** e.e. pensiwn, gwaddol, ISA (Y DU)
- Datganiad P45/P60 **(DU ac Ynysoedd y Sianel)
- Datganiad y Dreth Gyngor (DU ac Ynysoedd y Sianel)**
- Trwydded Waith/Fisa (Y DU) (Trwydded Breswylio'r DU) **
- Llythyr Nawdd gan ddarparwr cyflogaeth yn y dyfodol (Y tu allan i'r DU/AEE yn unig – dim ond i ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i'r DU ar adeg y cais).
- Bil Trydan/Dŵr/Nwy (Y DU) * - Nid ffôn symudol
- Datganiad Budd-daliadau * - e.e. Lwfans Plentyn, Pensiwn.
- Dogfen gan y Llywodraeth Ganolog/Asiant Llywodraeth/Awdurdod Lleol yn rhoi hawl (Y DU ac Ynysoedd y Sianel) * - e.e. gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Y Gwasanaeth Cyflogaeth, Cyllid a Thollau ei Fawrhydi, Y Ganolfan Waith, Y Ganolfan Byd Gwaith, Nawdd Cymdeithasol.
- Cerdyn Adnabod Cenedlaethol yr UE.
- Cardiau â logo achredu PASS (Y DU ac Ynysoedd y Sianel)

*Rhaid i'r ddogfen fod wedi'i chyflwyno yn y 3 mis diwethaf
**Rhaid i'r ddogfen fod wedi'i chyflwyno yn y 12 mis diwethaf.